




Talacharn



Castell Talacharn



Cartref Dylan Thomas



Trwyn Ginst



Pam Dewis Cerdded?

Mae paneli gwybodaeth a golygfannau ar hyd y ffordd ac mae rhannau o'r ddwy daith gerdded yn dilyn Llwybr Arfordir Cymru sy'n cynnig golygfeydd godidog dros y bae. Mae gan y ddwy daith gerdded gysylltiadau cryf â Dylan Thomas.



Pa mor bell?

Mae Llwybr Sir John's Hill yn 2.6km o hyd (ychydig dros 1½ milltir).
Mae Llwybr Dylan yn 4.6km o hyd. (tua 3 milltir).



Pa mor anodd?

Mae Llwybr Dylan i'r gogledd-ddwyrain ar dir cymharol wastad am y rhan fwyaf o'r ffordd. Mae arwyneb i'r llwybr hyd at sied ysgrifennu a Chartref Dylan Thomas. Ymhellach ymlaen y mae caeau a rhannau byr i fyny rhiw ar draciau fferm garw.

Mae taith gerdded Sir John's Hill yn fwy bryniog, gyda rhes fer o risiau, traciau glaswelltog, caeau i'w croesi a rhan fer ar hyd lôn wledig.



Y Man Cychwyn/Y Maes Parcio - Maes Parcio'r Castell - **Rhybudd: Mae llifogydd yn gallu digwydd yn y maes parcio hwn pan fydd y llanw'n uchel.**



Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓

Llwybr Dylan:

- 1 **Castell Talacharn** - sefydlwyd gyntaf yn 1116 ond mae'r waliau aruthrol yn dyddio o'r 15fed a'r 16eg ganrif fel tŷ gwledig caerog. Mae'r morfeydd heli wedi datblygu o ran arwynebedd dros y 100 mlynedd diwethaf - yn y Canol Oesoedd, gallai cychod ddod i fyny hyd at waliau'r castell.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

Mannau o ddiddordeb



© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023377

- 2** Bu Cartref Dylan Thomas yn gartref iddo rhwng 1949 ac 1953. Tafarn oedd yma yn 1880au, sef The Ferry House Inn, ac yna roedd iard atgyweirio ac adeiladu cychod yma.
- 3** Y Llwybr sy'n dilyn ochr y clogwyn hyd nes y 1950au roedd bad o 'Ferry Point' i Dalacharn yn cael ei weithredu yn ôl y llanw gan un cychwr.
- 4** Llongau Fferi a Chroesi'r Afon - Mae llongau fferi sy'n croesi Aber Afon Taf ers y Canol Oesoedd wedi cael eu defnyddio gan frenhinoedd, esgobion, pererinion, masnachwyr a nifer eraill.
- 5** Llwybr Arfordir Cymru - Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cysylltu Talacharn â Sanclêr i'r gogledd ac yn cysylltu â Phentywyn i'r gorllewin.
- 6** Eglwys Sant Martin - eglwys sy'n dyddio o'r 13eg ganrif. Mae Dylan Thomas wedi cael ei gladdu yn y fynwent newydd, wedi'i nodi â chroes wen syml.
- 7** Ffin y Gorfforaeth - Wrth y gamfa, chwiliwch am yr arysgrif ar y garreg. Mae golygfeydd gwych i'w gweld ar hyd aber Taf a thua'r môr i Drwyn Wharley sydd dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 'Cover Cliff' a 'Black Scar Ferry'.
- 8** Corsydd Talacharn - Tir sydd wedi cael ei adennill oddi wrth y môr ers y Canol Oesoedd. Allan tua Thrawn Ginst gallwch weld y ddau forglawdd 'The Freething' a 'The Saltings'. Gellir gweld olion rhychau wedi'u haredig o adeg diwedd y 18fed ganrif yn glir hyd heddiw.
- 9** 'The Lees' - tir comin isel (40 stribed bach neu gyfranddaliadau) sy'n perthyn i Gorfforaeth Talacharn, a ganiatawyd gan Syr Guy de Brian yn 1291, ac mae pileri haearn yn nodi'r ffiniau.
- 10** Chwarel Coygan - Gellir gweld calchfaen carbonifferaidd yn brigo i'r wyneb yn y pellter, sydd â system ogofâu helaeth. Tua 38,000 o flynyddoedd yn ôl roedd yr ogof yn ffau ar gyfer hienas. Hefyd daethpwyd o hyd i offer llaw o gerrig crai a ddefnyddiwyd gan ddyinion Neanderthalaidd.
- 11** Y Lôn Gefn - Yn ôl Mary Curtis, bu llawer o ladd ar hyd y Llwybr pan oedd milwyr Cromwell wedi ymosod ar y Castell.

Taith 'Sir John's Hill':

- 7** Ffin y Gorfforaeth - Wrth y gamfa, chwiliwch am yr arysgrif ar y garreg. Mae golygfeydd gwych i'w gweld ar hyd aber Taf a thua'r môr i Drwyn Wharley sydd dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 'Cover Cliff' a 'Black Scar Ferry'.